Cofnodion cyfarfod Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd Penrhyn **ar 2 Hydref 2023** am 6.30 pm.

**PRESENNOL:-** Ei Theilyngdod y Maer, Cyng. Elin Walker Jones; Cyng. Gareth Parry (Dirprwy Faer), Cyng. Steve Bell, Cyng. Salamatu Fada, Cyng. Medwyn Hughes, Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng John Wyn Jones, Cyng. Meic Pattison, Cyng. Nigel Pickavance, Cyng. Eirian Williams Roberts, Cyng Gareth Roberts, Cyng. Mark Roberts, Cyng. Delyth Russell, Cyng. L. Toth (cyrhaeddodd 7.15 pm), Cyng John Wyn Williams.

Swyddogion:- Martin Hanks (Y Cyfarwyddwr Dinesig), Llinos F Jones, (Dirprwy Gyfarwyddwr Dinesig), Sioned Jones (Cyfieithydd) ac un Aelod o'r Cyhoedd.

**58/23 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Dylan Fernley a'r Cyng. Gwynant Roberts

**59/23 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**
Dim

**60/23 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**
Derbyniodd y Cyngor gyflwyniad gan Adam Milton-Barker ar y manteision posibl i'r Ddinas o sefydlu gwefan Bangor. Gellid defnyddio gwefan o'r fath i hyrwyddo atyniadau a digwyddiadau a hefyd unrhyw gynigion arbennig sydd ar gael yn unrhyw un o'r siopau lleol.

Yn dilyn sesiwn cwestiwn ac ateb byr diolchwyd i Mr Milton-Barker gan y Maer am y cyflwyniad.

**61/23 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG**
*Dosbarthwyd yr Adroddiad cyn y cyfarfod.*
Roedd adroddiad Y Cyfarwyddwr Dinesig wedi'i gylchredeg ymlaen llaw cyn y cyfarfod. Roedd yr Adroddiad yn diweddaru'r Cyngor ar fentrau a digwyddiadau cyfredol. Roedd y prif bwyntiau yn yr adroddiad yn ymwneud â'r sedd wag ym Marchog, a'r newyddion diweddaraf am brosiect Prydau Poeth y Cyngor ac Undeb y Myfyrwyr a ddechreuodd ddydd Sadwrn 30 Medi, a'r ddirprwyaeth sydd ar fin cyrraedd o Soest i ddathlu 50 mlynedd ers sefydlu gefeillio'r ddwy Ddinas. Gofynnwyd i'r cynghorwyr oedd yn bwriadu bod yn bresennol yn y dathliad i gyfarfod yn swyddfeydd y Cyngor am 10.30am i wisgo'u clogynnau cyn mynd ymlaen i'r Gadeirlan. Tynnwyd sylw hefyd at restr o ddigwyddiadau sydd i ddod.
**PENDERFYNWYD:** Derbyn Adroddiad y Cyfarwyddwr Dinesig.

**62/23 CYMERADWYO COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR AR 11eg MEDI 2023**
*Roedd cofnodion cyfarfod y Cyngor ar 11 Medi wedi'u hanfon i'r Cynghorwyr.*
**PENDERFYNWYD:** bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 11 Medi 2023.

**63/23 CYMERADWYO'R CYLCH GORCHWYL AR GYFER PWYLLGOR CYLLID A THROSOLWG.**
*Roedd Cylch Gorchwyl drafft y Pwyllgor Cyllid a Goruchwylio wedi'i ddosbarthu ymlaen llaw cyn y cyfarfod.*

Trafodwyd y Cylch Gorchwyl drafft. Adroddodd y Cyfarwyddwr Dinesig er bod y ddogfen ddrafft, fel y'i cyflwynwyd, yn sylfaen dda i'r Cylch Gorchwyl, nid oedd yn cynnwys digon o fanylion i ganiatáu i'r Cyngor ddirprwyo awdurdod i'r pwyllgor newydd.
**PENDERFYNWYD:** i) derbyn y ddogfen ddrafft fel sail i'r Cylch Gorchwyl, ii) cymeradwyo cyfansoddiad y Pwyllgor, sef 3 Chynghorydd o'r blaid wleidyddol fwyaf, tri Chynghorydd o'r pleidiau 'eraill' ynghyd â Maer a Dirprwy Faer y flwyddyn arbennig honno, yn gwneud cyfanswm o 8 Aelod. Yr oedd y penodwyr yn Cyng. Elin Walker Jones (Maer), Cyng. John W. Jones, Cyng. Gareth Parry (Diprwy Faer), Cyng. Eirian Williams Roberts, Cyng. Mark Roberts, Cyng. Delyth Russell a Cyng. John W. Williams.

**64/23 YMRWYMIAD I'R RAS I SERO**
Yn dilyn y cyflwyniad i'r Cyngor yn y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 11 Medi, pan gafwyd cyflwyniad gan Argyfwng Hinsawdd Bangor, bu'r Cyngor yn trafod ymrwymo i'r Ras i Sero. Roedd y cynnig yn golygu bod y Cyngor yn addo 'gweithredu tuag at neu y tu hwnt i gyfran deg o'r gostyngiad byd-eang o 50% mewn nwyon tŷ gwydr sydd ei angen erbyn 2030 ac i gyrraedd sero net erbyn 2050 fan bellaf'.
**PENDERFYNWYD:** cael mwy o fanylion ar sut y gall y Cyngor gydymffurfio a'r ymrwymiad hwn a faint y bydd yn effeithio ar weithrediad y Cyngor cyn gwneud penderfyniad terfynol. Cynigiodd y cynghorwyr canlynol gynorthwyo gyda'r asesiad hwn; Cyng. Bell, Cyng. Patterson a Cyng. Toth.

**65/23 CYMERADWYO HYFFORDDIANT LLYTHRENNEDD CARBON I GYNGHORWYR A SWYDDOGION.**
Cafwyd ail gynnig yn sgil cyflwyniad Argyfwng Hinsawdd Bangor yn y cyfarfod diwethaf (y cyfeirir ato uchod) sef trefnu Hyfforddiant Llythrennedd Carbon i Gynghorwyr a staff. Tystiodd cynghorwyr a fynychodd gyrsiau tebyg yng Nghyngor Gwynedd i werth hyfforddiant o'r fath.
**PENDERFYNWYD** : cymeradwyo Hyfforddiant Llythrennedd Carbon.

**66/23 CYMERADWYO TRAFODAETHAU SY'N ARWAIN AT EFEILLIO BANGOR GYDA MAY PEN JAMAICA.**
Oherwydd cyfyngiadau amser, gohiriwyd yr eitem hon.

**67/23 I CYMERADWYO TALIADAU.**
*Roedd y rhestr taliadau ar gyfer misoedd Mehefin, Gorffennaf ac Awst wedi'i chylchredeg i'r Cyngor.*
Cyflwynwyd y rhestr o daliadau ar gyfer Mehefin, Gorffennaf ac Awst i'r Cyngor. Cyfeiriwyd nifer o gwestiynau at Gyfarwyddwr y Ddinas/Swyddog Ariannol Cyfrifol ynghylch taliadau ar y rhestrau.
**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo'r rhestr o daliadau fel y'i cyflwynwyd.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.45 p.m**
CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR